# Eisteddfod Genedlaethol
# Urdd Gobaith Cymru
# Sir Gâr 2007
### 28 Mai - 2 Mehefin

urdd.org

## Ffurflen Archebu Safle ar y Maes Carafanau

**DEFNYDDIWCH LYTHRENNAU BREISION AC INC DU NEU BROSESYDD GEIRIAU**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Cyfeiriad | |
| | |
| | |
| | |
| Côd Post | |
| E-bost | |
| Rhif(au) Ffôn | |
| Rhif eich Cerbyd | |
| Rhif yr 2il Gerbyd | |

| **Nodwch â X pa nosweithiau y carech eu harchebu:** | |
|---|---|
| **Nosweithiau** | **X** |
| Nos Wener, 25 Mai | |
| Nos Sadwrn, 26 Mai | |
| Nos Sul, 27 Mai | |
| Nos Lun, 28 Mai | |
| Nos Fawrth, 29 Mai | |
| Nos Fercher, 30 Mai | |
| Nos Iau, 31 Mai | |
| Nos Wener, 1 Mehefin | |
| Nos Sadwrn, 2 Mehefin | |
| **Cyfanswm Nosweithiau** | |

| **Nifer y Nosweithiau** | **Safle yn Unig (dim Trydan) X** | | **Safle gyda Thrydan X** | |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **£15.00** | | **£25.00** | |
| **2** | **£30.00** | | **£50.00** | |
| **3** | **£40.00** | | **£60.00** | |
| **4** | **£55.00** | | **£80.00** | |
| **5** | **£70.00** | | **£100.00** | |
| **6** | **£85.00** | | **£120.00** | |
| **7** | **£100.00** | | **£140.00** | |
| **Cyfnod Llawn** | **£100.00** | | **£150.00** | |
| **Ail Gar** | **£12.00** | | **£12.00** | |
| **Cyfanswm** | | | | |

**Derbyniaf reolau ac amodau maes carafannau Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru.**

**Arwyddwyd :** ______________________________

**Dylid cwblhau'r ffurflen hon a'i dychwelyd ynghyd â siec am y swm priodol yn daladwy i** Urdd Gobaith Cymru **i:-**

**Carafannau, Adran yr Eisteddfod, Urdd Gobaith Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL**

**Swyddfa yn unig**

**Talwyd** ………………..

**Dyddiad** ……………….

**Rhif Safle** ………………

**Rheolau ac Amodau:- Gweler trosodd →**

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU
## Y MAES CARAFANAU – Rheolau ac amodau

1. Bydd y Maes Carafanau yn agored o 6.00 o'r gloch nos Wener, 25 Mai 2007 hyd hanner dydd, ddydd Sul, 3 Mehefin 2007.

2. Rhaid i bob cerbyd fod wedi gadael y safle erbyn hanner dydd, ddydd Sul, 3 Mehefin, 2007.

3. Rhaid i bob carafán gael diffoddwr tân powdr sych, wedi'i gynnal a'i gadw'n bwrpasol ac yn cynnwys o leiaf 900 gram o bowdr. (Argymhellir hefyd fod blanced fygu o ddefnydd sy'n gwrth sefyll tân i'w defnyddio yn rhan coginio'r garafán, wrth law.)

4. Darperir cyfleusterau gwagio ar gyfer toiledau cemegol a dŵr budr ar y maes. Ni chaniateir mynediad i'r Carafanau hynny sydd heb gyfleusterau toiled, a rhaid i'r carafanwr brofi fod ganddo'r cyfryw gyfleusterau. Dylai'r dŵr budr sy'n cael ei wagio o'r garafán gael ei gadw mewn cynhwysyddion iechyd priodol a'i ddwyn oddi yno i'r mannau penodedig i'w daflu ymaith.

5. Caniateir mynediad i foduron a charafannau ar yr amod na fydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed i:
   i) Unrhyw garafán neu gerbyd neu eiddo
   ii) Unrhyw beth ar neu oddi mewn neu o gwmpas cerbyd neu garafán sut bynnag yr achosir hynny
   iii) Unrhyw niwed i berson.

6. Fe'ch anogir i beidio â dod a chŵn gyda chwi, ond os yw hynny yn anorfod rhaid eu cadw ynghlwm bob amser gan sicrhau nad ydynt yn baeddu y tu allan i'r llecyn dynodedig.

7. Caniateir un car yn unig i bob carafán ar y maes heb daliad ychwanegol o £12.00 am y cyfnod.. Ni chaniateir i neb gysgu dros nos mewn car.

8. Caniateir glynion pwrpasol i'w harddangos ar y cerbydau sydd â chaniatâd i fod ar y Maes. Rhaid arddangos y glynion yn glir yn ffenestr flaen y car a'r garafán. Ni roddir caniatâd i gar fynd ar y Maes Carafan heb y glynion pwrpasol.

9. Dylid parcio'r garafán gyda'r bachyn tynnu (hitch) yn union uwchben y peg sy'n nodi rhif y safle.

10. Cyfyngir cyflymdra'r cerbydau i 5 milltir yr awr.

11. Ni chaniateir gosod carafán ar ôl 9 o'r gloch yr hwyr.

12. Ni chaniateir unrhyw sŵn ar ôl 11.00 o'r gloch y nos.

13. Disgwylir i bob carafanwr gadw'r maes yn lân a thaclus a mynd â phob bag ysbwriel i'r mannau priodol ar y maes.

14. Ni chaniateir ymolch wrth y tapiau dwr a rhaid golchi bwcedi elsan wrth y tapiau priodol. Dylid gofalu troi'r tapiau i ffwrdd cyn ymadael.

15. Rhaid parchu rheolau cefn gwlad, a chadw at lwybrau pwrpasol. Dylid hefyd ofalu cau pob llidiart ar eich ôl.

16. Rhieni sy'n gyfrifol am ymddygiad a diogelwch y plant.

17. Os torrir un o'r rheolau ac amodau hyn gall Pwyllgor yr Eisteddfod derfynu'r denantiaeth yn ddirybudd ac ar unwaith (heb amharu ar ei hawl i gymryd moddion arall o fo'n agored iddo. Os digwydd hyn nid ad-delir unrhyw dâl nac unrhyw ran ohono i'r tenant a dorro un o'r rheolau ac amodau hyn.

18. **Os ydych am safle wrth ochr ffrind, rhaid dychwelyd y ffurflenni gyda'i gilydd.**
    **SYLWER** – nid yw'n bosib lleoli carafanau sydd am gyflenwad trydan gyda rhai sydd yn dewis pedio â chael trydan.

19. **Cyfyngir** y cyflenwad trydan i 10amp, ac os byddwch yn gorlwytho'r cyflenwad torrir y cysylltiad yn awtomatig. Gellir ailosod y swîts, ond os byddwch yn gorlwytho yn ormodol, dad-gysylltir y cyflenwad yn gyfan gwbl. Yn yr achos hwnnw no roddir ad-daliad

20. Dosberthir safleoedd yn ôl trefn derbyn ceisiadau.

21. Dylid anfon pob ffurflen i archebu safle at yr Adran Eisteddfod, Urdd Gobaith Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL cyn gynted ag y bo modd.